

**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**  
**Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.**  
**Teleffon: Botwnnog 730357**

9fed Rhagfyr, 2020.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor drwy ddefnyddio 'zoom' (drwy garedigrwydd Y Cynghorydd Michael Strain) **Nos Lun nesaf, 14eg Rhagfyr, 2020** am 7.30 y.h. Bydd y Cynghorydd Strain yn anfon e-bost atoch cyn yr amser dechrau fel y gallwch ymuno yn y cyfarfod.

**RHAGLEN**

**1. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**2. YMDDIHEURIADAU**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn ffurflenni.

**4. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 9fed TACHWEDD, 2020.**

Copi'n amgaeedig.

"A"

I drafod materion yn codi o'r cofnodion.

**5. CEISIADAU CYNLLUNIO**

I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.

(a) Cais C20/0714/32/LL – addasu adeiladau allanol yn ddwy uned wyliau – Neigwl Ganol, Botwnnog

(b) Cais C20/0935/32/LL – sefydlu safle gwerysyla amgen tymhorol, tirlunio a gwaith cysylltiedig – Pen y Bryn Lleyn, Brynmawr.

**6. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

**7. MATERION IECHYD**

A oes unrhyw fater angen ei anfon ymlaen i Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru?

## 8. CEFNOGAETH I FLAENORIAETHAU LLYWODRAETH CYMRU

E-bost oddi wrth Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau Ardal Dwyfor ynglyn a grantiau sydd ar gael i gaeau chwarae. Gan nad oes gan y Cyngor gae chwarae eu hunain mae'r Swyddog yn gofyn "ydych yn ymwybodol o grwpiau eraill sy'n gwneud hyn yn eich cymuned fyddai a diddordeb ymgeisio am y grant? Os felly, byddem yn ddiolchgar os gallech ddefnyddio eich gwybodaeth leol er mwyn pasio'r gwybodaeth am y cyfle ymlaen iddynt."

Copi o'r e-bost i ddilyn gyda'r e-bost nesaf gan fod y ffurflen cais a.y. yn gysylltiedig ag ef. I'r rhai ohonoch lle nad oes gennych gyfeiriad e-bost a wnewch adael i mi wybod a oes angen copi arnoch.

## 9. AWDURDOD I DALU

I awdurdodi'r taliad a ganlyn ac unrhyw daliad a ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor.

Cyflog Y Clarc	£ 372.55
HMRC	£ 93.20
J.A. Pozzi – torri gwellt Comin Bryncroes	£1,080
J.A. Pozzi – barbio llwybrau	£ 180
J.A. Pozzi – torri gwellt Mynwent Llandegwning	£ 612 o Gronfa'r Fynwent

## 10. TENDRAU BARIO

I ystyried rhoddi hysbyseb i wahodd tendrau am farbio tiroedd y Cyngor.

## 11. ARCHWILIAD Y CYFRIFON I FYNY I 31ain MAWRTH, 2020

Adroddiad yr Archwilwyr (os i law).

Yn gywir,



Clarc

## AELODAETH Y CYNGOR Y CYNGHORWYR

David Brunelli (post)  
Gwenan Griffith (e-bost)  
Glyn Roberts (e-bost)  
Glenys Williams (post)

Carys H. Evans (e-bost)  
Dylan Parry Jones (post)  
Michael Strain (e-bost)  
Siôn Williams (e-bost)

Elin Hughes (e-bost)  
Ifor Owen (post)  
Carys E. Williams (post)